**Bwrdd y Coleg, 26 Mawrth 2025 (9:30 – 1:45), Prifysgol Aberystwyth**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Dr Aled Eirug (Cadeirydd) |
| | Ann Beynon |
| | Nia Elias |
| | Rhys Evans |
| | John Hayes |
| | Yr Athro Anwen Jones |
| | Llinos Roberts |
| **Sylwedydd:** | Alan Jones (Llywodraeth Cymru) |
| **Swyddogion:** | Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr) |
| | Gwenllïan Griffiths (Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu) |
| | Dr Dylan Phillips (Cyfarwyddwr Addysg Uwch ac Ysgrifennydd) |
| | Dr Dafydd Trystan (Cyfarwyddwr Datblygu Strategol, Addysg Bellach a Chofrestrydd) |
| | Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant) |
| | Mari Fflur (Uwch Reolwr Datblygiadau Strategol) |
| | Suzanne Lewis (Uwch Reolwr Gwasanaethau Corfforaethol) |
| | Gwenllian Owen (Uwch Reolwr Addysg Uwch) |
| | Rebecca Williams (Uwch Reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio Gweithlu) |
| **Ymddiheuriadau:** | Meri Huws, Yr Athro Pedr ap Llwyd, Angharad Roberts, Yr Athro Enlli Thomas, Deio Owen |

**Cofnodion Cyfarfod 26 Mawrth 2025**

## 1. Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. | | |

## 2. Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. | | |

## 3. Eitem 3 – Adroddiad y Prif Weithredwr

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| | *Ar y pwynt hwn ymunodd Nia Elias yn y cyfarfod* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar. | | |
| 3.2 | **Cynulliad 25 Mawrth 2025**<br>Adroddwyd ar y Cynulliad a gynhaliwyd y noson cynt, gan gynnwys cyflwyno cymrodoriaeth er anrhydedd y diweddar Athro Geraint H. Jenkins i aelodau o'i deulu. | | |
| 3.3 | **Llythyr Grant Llywodraeth Cymru**<br>Adroddwyd ar gyfarfod gyda Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru ar 25 Mawrth 2025. Adroddwyd ar y cynnydd o £494,400 i gyllideb y Coleg yn 2025/26 a gadarnhawyd yn y Llythyr Grant gan Lywodraeth Cymru a dderbyniwyd ar 25 Mawrth 2025.<br>Trafodwyd y cyfleoedd i ddenu cynulleidfaoedd newydd yng nghyd-destun y cynnydd i'r gyllideb. | | |
| 3.4 | **Cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru**<br>Adroddwyd ar gyfarfod y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyda Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Vikki Howells AS, | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch a swyddogion y Llywodraeth ar 12 Mawrth 2025. | | |
| 3.5 | **Bil y Gymraeg ac Addysg**<br>Adroddwyd bod nifer o'r cynigion a gyflwynwyd gan y Coleg i Fil y Gymraeg ac Addysg wedi'u derbyn. Bydd y Bil yn cwblhau ei daith drwy'r Senedd ym mis Mai. | | |
| 3.6 | **Medr**<br>Adroddwyd bod Bwrdd Medr wedi derbyn cyngor cychwynnol y Coleg ac wedi ymrwymo i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws y sector trydyddol cyfan. Cyhoeddwyd Cynllun Strategol Medr ar 12 Mawrth 2025.<br>Cynhaliwyd cyfarfod cadeiryddion a phrif weithredwyr Medr a'r Coleg ar 28 Ionawr 2025 a bydd patrwm o gyfarfodydd rheolaidd yn digwydd.<br>Mae cyfarfodydd rheolaidd deufisol wedi'u trefnu gyda Kieron Rees, Cyfarwyddwr Profiad Dysgwyr Medr, sy'n gyfrifol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac uwch swyddogion eraill o Medr. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae Vikki Howells AS, Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, wedi gofyn am astudiaeth o feysydd a phynciau 'mewn sefyllfa o risg' ar draws y sector trydyddol oherwydd niferoedd isel, ac mae Medr wedi gwahodd y Coleg i gyfrannu at y gwaith hwn. | | |
| 3.7 | **Y Ganolfan Dysgu Cymraeg**<br>Adroddwyd ar y cydweithio sy'n parhau rhwng y Coleg a'r Ganolfan. Nid oes cadarnhad eto o gyllideb Cymraeg Gwaith (a ddaw oddi wrth Lywodraeth Cymru drwy'r Ganolfan) ar gyfer 2025/26. | | |
| 3.8 | **Prifysgolion Cymru**<br>Adroddwyd bod y Prif Weithredwr wedi rhoi cyflwyniad i gadeiryddion y prifysgolion ar 14 Mawrth 2025. | | |
| 3.9 | **Addysg Uwch**<br>Adroddwyd ar brosiect peilot i gymhwyso CEFR i ddatblygu dulliau ar gyfer adnabod cyrhaeddiad myfyrwyr ar ddiwedd cwrs gradd.<br>Adroddwyd ar y pecyn technegau newid ymddygiad i ddylanwadu ar ddewisiadau | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyfrwng iaith myfyrwyr. Bydd modd rhannu'r pecyn ar ei ffurf derfynol ym mis Ebrill 2025. Adroddwyd ar gyhoeddiad bwletin Medr ar ddata myfyrwyr AU 2022/23 a nodwyd bod y Coleg wedi gofyn i Medr am drafodaeth gynnar ar amserlen cyhoeddi bwletin 2026. | Pecyn newid ymddygiad i'w rannu gyda'r Bwrdd, a chyflwyniad yn y cyfarfod nesaf.<br>Cytunwyd i rannu dadansoddiad y Coleg o'r data gyda'r Bwrdd. | Ebrill 2025<br>I'w gadarnhau |

**4. Eitem 4 – Diweddariad Addysg Uwch**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Cyflwynwyd diweddariad ar Addysg Uwch gan y Cyfarwyddwr Addysg Uwch a'r Uwch Reolwr Addysg Uwch. | | |
| 4.2 | Adroddwyd ar y sefyllfa gyfredol o ran cefnogaeth y Coleg i'r prifysgolion a mesurau i gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Adroddwyd ar y cyfarfodydd diweddar gydag Is-Gangellorion i drafod yr heriau cyllidebol sy'n wynebu'r sefydliadau addysg uwch a all arwain at benderfyniadau a allai effeithio'n negyddol ar gapasiti staffio a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. | | |
| 4.3 | Yn dilyn cais gan y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Coleg gasglu gwybodaeth benodol am | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ardrawiad ar y Gymraeg wrth golli swyddi ledled addysg uwch, gohebwyd â'r sefydliadau AU i gyd. Cyflwynwyd papur yn crynhoi ymatebion y prifysgolion, er gwybodaeth o'r sefyllfa ar draws Cymru, i'r aelodau. | | |
| 4.4 | Yn ystod y drafodaeth nodwyd fod pwysau gwaith ar amser a chapasiti staff y Coleg yn drwm, ac mae wedi dod yn angenrheidiol ailasesu blaenoriaethau ynghylch ble i ddefnyddio ein hadnoddau staff. Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni'n effeithiol cytunwyd y dylai'r swyddogion blaenoriaethu'r gwaith strategol i gynllunio'n genedlaethol. O ganlyniad, bydd rhai elfennau o'r gwaith yn cael eu gohirio dros dro i ganiatáu dull fwy strategol wrth symud ymlaen. | | |
| 4.5 | Rhoddodd Alan Jones, Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, ddiweddariad ar Gynllun Seren a sut mae'r cynllun yn ymwneud â phrifysgolion yng Nghymru a phrifysgolion tu hwnt i Gymru<br>*Yn ddiweddarach yn y cyfarfod adroddodd Alan Jones, nad oedd cynllun Seren yn casglu data ar | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | siaradwyr Cymraeg ond maent yn casglu data ynghylch ysgol y disgyblion. | | |
| 4.6 | Yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at gyraeddiadau'r deiliaid Ysgoloriaethau Ymchwil a gydnabwyd yn y Cynulliad am gwblhau eu doethuriaethau'n llwyddiannus dan nawdd y Coleg. | | |
| 4.7 | Ar ddiwedd y drafodaeth cytunwyd i gynnwys sylwadau'r Coleg ar gynllun Seren o fewn briff ehangach ar gyfer Vikki Howells AS, Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, ar sefyllfa gyfredol y Gymraeg oddi fewn i addysg uwch, a gwaith y Coleg yn benodol. | Swyddogion i ymateb i'r Gweinidog o ran cynllun Seren | Gwanwyn 2025 |
| 4.8 | Ar ddiwedd y drafodaeth ar addysg uwch, mynegodd aelodau'r Bwrdd eu cefnogaeth unfrydol i'r camau a gymerwyd gan y swyddogion o ran gohebu gyda'r prifysgolion ynghylch sefyllfa gyfredol addysg uwch. Ategwyd hyn gan Yr Athro Anwen Jones, a bwysleisiodd fod ei sylwadau ar bwysigrwydd camau gweithredu'r Coleg ar hyn o bryd yn cael eu cyfleu yn ei rôl fel aelod Bwrdd ac nid aelod o dîm rheoli ei phrifysgol. | | |

5. **Eitem 5 – Cynllunio'r sector trydyddol**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Cyflwynwyd papur ar gynllunio cyfannol ar draws y sector trydyddol gan y Cyfarwyddwr Datblygu Strategol ac Addysg Bellach. | | |
| 5.2 | Trafodwyd y ffrâm o ran cyllido, cynllunio, staffio a dilyniant a sut y byddai'n effeithio ar waith polisi, ymgysylltu, paratoi maniffesto a chynghori Medr. | | |
| 5.3 | Derbyniwyd y ffrâm fel sail i gynllunio gwaith y Coleg yn y blynyddoedd nesaf gan adlewyrchu dyhead Medr i ddatblygu prosesau cyffredin ar draws y sector lle bo hynny'n addas. | | |

6. **Eitem 6 – Maniffesto – CAEËDIG**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| | *Ar y pwynt hwn ymadawodd Alan Jones, Llywodraeth Cymru, y cyfarfod.* | | |
| 6.1 | Cyflwynwyd Maniffesto'r Coleg ar gyfer Etholiad y Senedd 2026 gan y Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, yr Uwch Reolwr Polisi | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a'r Uwch Reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio'r Gweithlu. | | |
| 6.2 | Adroddwyd y byddai'r swyddogion yn llunio dogfennaeth at bwrpas ymgysylltu â rhaglen ymgysylltu gyda golwg ar ddylanwadu ar y pleidiau ac ar raglen lywodraethu'r llywodraeth nesaf. | | |
| 6.3 | Trafodwyd yr allbynnau y gallai'r Llywodraeth nesaf gefnogi a natur y trafodaethau ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a phleidiau o nawr hyd at yr haf. | | |
| 6.4 | Derbyniwyd y ddogfen. | | |
| | *Ar y pwynt hwn ail ymunodd Alan Jones yn y cyfarfod.* | | |

**7. Eitem 7 – Cofnodion 20 Tachwedd 2024 a materion yn codi**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 7.1 | Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2024. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.2 | Eitem 3.7 – Adroddwyd y trefnwyd diweddariad Addysg Uwch i aelodau ar 21 Ionawr 2025 | | |
| 7.3 | Eitem 6.2 – Adroddwyd bod cytundeb i drosglwyddo asedau Ymddiriedolaeth Salesbury i'r Coleg. | Y Cadeirydd i ysgrifennu'n ffurfiol at yr Ymddiriedolaeth i gydnabod eu gwaith dros y blynyddoedd a diolch am ymddiried yr asedau i ofal y Coleg. | Gwanwyn 2025 |

## 8. Eitem 9 – Materion y Cadeirydd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 8.1 | Adroddodd y Cadeirydd ymhellach ar y cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr a Vikki Howells AS, Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch a Mark Drakeford, yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, ar 12 Mawrth 2025. | | |

## 9. Eitem 10 – Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 9.1 | **Cofnodion (Eitem 10i)** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2024.<br><br>Adroddodd yr Ysgrifennydd:<br><br>• ar adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar lywodraethiant a oedd wedi derbyn sicrwydd sylweddol a'r camau gweithredu i ymateb i'r argymhellion. | | |
| 9.2 | **Dogfen Llywodraethiant (Eitem 10ii)**<br><br>Derbyniwyd a chadarnhawyd y ddogfen llywodraethiant a oedd wedi'i ddiwygio gan y Pwyllgor yn sgil rhai argymhellion gan yr Archwilwyr Mewnol. | | |
| 9.3 | **Gweithdrefnau Penodi (Eitem 10iii)**<br><br>Derbyniwyd a chadarnhawyd y gweithdrefnau penodi a oedd wedi'u diwygio gan y Pwyllgor yn sgil rhai argymhellion gan yr Archwilwyr Mewnol. | | |
| 9.4 | **Cynllun profiad llywodraethiant i ddarpar arweinwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (Eitem 10iv)**<br><br>Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Corfforaethol y cynllun profiad llywodraethiant i | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddarpar arweinwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. | | |
| 9.5 | **Aelodaeth pwyllgorau**<br>Adroddwyd bod John Hayes yn aelod newydd o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn sgil penodi Rhys Evans yn gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.<br>Adroddwyd yr hysbysebwyd am aelodau allanol i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac ystyriwyd y ceisiadau gan banel o'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant ar 19 Mawrth. Cylchredir argymhellion i'w cadarnhau gan y Bwrdd maes o law. | | |

**10. Eitem 11 – Pwyllgor Archwilio a Risg**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 10.1 | **Cofnodion (Eitem 11i)**<br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2025. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddodd Rhys Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg:<br>• y byddai'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant yn trafod honorariwm y Cadeirydd yn sgil argymhelliad gan yr Archwilwyr Mewnol<br>• ar y cynnydd TG o ran seibr ddiogelwch<br>• y digwyddiad seibr ar 14 Ionawr 2025<br>• ar drafodaeth lefel Bwrdd ar gyfleoedd AI | | |
| 10.2 | **Y Gofrestr Risg (Eitem 11ii)**<br>Nodwyd y Gofrestr Risg Strategol, er gwybodaeth. | | |

## 11. Eitem 12 – Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 11.1 | **Cyfarfod 5 Mawrth 2025**<br>Adroddwyd na chynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 5 Mawrth 2025 oherwydd diffyg cworwm. Yn sgil hynny, rhannwyd holl bapurau'r Pwyllgor gyda'r Bwrdd a nodwyd nad oedd modd i'r Pwyllgor argymell y gyllideb i'r Bwrdd gan nad oedden nhw wedi cyfarfod. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cofnododd y Prif Weithredwr ei gonsyrn nad oedd y Pwyllgor wedi ystyried y materion a ddirprwywyd iddo gan y Bwrdd ac, o ganlyniad, yr oedd nifer o faterion heb eu cyflawni ac nid oedd argymhelliad i'r Bwrdd ei ystyried mewn perthynas â chyllideb y Coleg ar gyfer 2025/26. | | |
| 11.2 | **Cofnodion ac adroddiadau**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 25 Medi 2024.<br>Nodwyd y diweddariadau a baratowyd gan y swyddogion mewn perthynas â Marchnata, Technoleg Gwybodaeth, Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, ac Amrywiaeth a Chydraddoldeb. Ni fu trafodaeth ar yr adroddiadau. | | |
| 11.3 | **Cyllideb y Coleg 2025/26**<br>Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, cyflwynodd yr Ysgrifennydd gyllideb ddrafft y Coleg ar gyfer 2025/26. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddwyd y cadarnhawyd bod cynnydd o 5% i gyllideb y Coleg yn Llythyr Grant Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd ar 25 Mawrth 2025.<br>Yn dilyn trafodaeth fer derbyniwyd y gyllideb ddrafft. | | |

**12. Eitem 13 – Bwrdd Academaidd**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 12.1 | **Cofnodion (Eitem 13)**<br>Yn absenoldeb y Cadeirydd, nodwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2025. | | |

**13. Eitem 14 – Bwrdd Strategol Ôl-16**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 13.1 | **Cofnodion (Eitemau 14i ac 14ii)**<br>Yn absenoldeb y Cadeirydd, nodwyd cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Strategol Ôl-16 a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2024 a 19 Chwefror 2025. | | |

## 14. Eitem 15 – Llythyr Grant Llywodraeth Cymru

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 14.1 | Adroddwyd bod Llythyr Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 wedi ei dderbyn ar 25 Mawrth.<br>Cadarnhawyd bod y Coleg yn derbyn amodau'r Llythyr Grant a chymeradwywyd bod y swyddogion yn dychwelyd copi wedi llofnodi at Lywodraeth Cymru. | | |

## 15. Eitem 16 – Cyllideb y Coleg 2025/26

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 15.1 | **Cyllideb ddrafft ar gyfer 2025/26 (Eitem 12)**<br>Trafodwyd dan Eitem 12. | | |
| 15.2 | **Rhestr Grantiau Cynllunio Academaidd Addysg Uwch 2025/26 (Eitem 16ii)**<br>Cyflwynodd yr Ysgrifennydd restr o grantiau cynllunio academaidd addysg uwch ar gyfer 2025/26. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddwyd ar y broses fonitro sydd wedi ei sefydlu ar gyfer y grantiau a disgrifiwyd y math o gamau a gymerir os nad yw sefydliad yn cyflawni'r amodau a gytunwyd.. | | |
| 15.3 | Derbyniwyd grantiau cynllunio academaidd addysg uwch ar gyfer 2025/26. | | |
| 15.4 | **Rhestr Grantiau Datblygu Addysg Bellach 2025/26 (Eitem 16ii)**<br>Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Datblygu Strategol, AB a Chofrestrydd restr o grantiau datblygu addysg bellach ar gyfer 2025/26.<br>Adroddwyd ar y patrwm o ddyfarnu grantiau i bob Coleg ar draws meysydd blaenoriaeth, a bod maint y grantiau hynny yn llai yn ail a thrydedd blwyddyn y dyfarniadau.. | | |
| 15.5 | Derbyniwyd grantiau datblygu addysg bellach ar gyfer 2025/26. | | |

**16. Eitem 17 – Materion cyfansoddiadol**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 16.1 | **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Llys) y Coleg** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhoddodd yr Ysgrifennydd adroddiad llafar ar gyfarfod blynyddol y Coleg a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2025. | | |
| 16.2 | Adroddwyd y derbyniodd y Llys Adroddiad Blynyddol 2023/24 a chyfrifon blynyddol y Coleg hyd at 31 Mawrth 2024. | | |

**17. Eitem 18 – Unrhyw fater arall**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 17.1 | **Holiadur y Bwrdd**<br>Atgoffwyd yr aelodau y bydd holiadur y Bwrdd yn cael ei gylchredeg ddiwedd yr wythnos i'w gwblhau erbyn 7 Ebrill 2025. | | |
| 17.2 | **Llythyr gan Cytûn**<br>Nodwyd bod llythyr wedi ei dderbyn gan Cytûn yn mynegi pryder am sefyllfa Diwinyddiaeth a phynciau eraill yn y Dyniaethau oherwydd y cyd-destun presennol mewn addysg uwch. Adroddwyd bod y swyddogion wedi cynnig cyfarfod gyda Cytûn i drafod eu pryderon. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.3 | **Sefydlu Ysgoloriaeth Anne Brooke**<br>Adroddodd y Prif Weithredwr bod y Coleg wedi derbyn cyfraniad ariannol gan aelod o deulu'r diweddar Anne Brooke. Bwriedir sefydlu ysgoloriaeth a chyhoeddir y manylion mewn digwyddiad sydd i'w gynnal yng Nghaerdydd ar 14 Gorffennaf 2025. | | |

**18. Eitem 19 – Cyfarfodydd nesaf**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 18.1 | Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:<br>• 25 Mehefin 2025, Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Caerdydd<br>• 19 Tachwedd 2025, Bangor<br>• 25 Mawrth 2026, Caerfyrddin (cynhelir y Cynulliad Blynyddol ar 24 Mawrth)<br>• 24 Mehefin 2026, Caerdydd | | |